



Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd
Gwynedd Archaeological Trust

Manyleb Person

Archaeolegydd Rheoli Datblygu

Mae'r canlynol yn ofynnol:

- Lleiafswm o 3 blynedd o brofiad archaeolegol proffesiynol, gan gynnwys profiad o ymchwil archaeolegol desg
- Gradd neu gyfwerth mewn archaeoleg neu bwnc cysylltiedig
- Dealltwriaeth o egwyddorion a dulliau archaeoleg guradurol
- Gwybodaeth gyfredol dda am archaeoleg Prydain a thechnegau archaeolegol
- Profiad o waith maes archaeolegol
- Yn gyfarwydd â chronfeydd data cyfrifiadurol
- Yn gyfarwydd ag egwyddorion ac arfer GIS
- Sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig a llafar rhagorol
- Y gallu i weithio'n annibynnol neu fel rhan o dîm
- Trwydded yrru lawn

Byddai'r canlynol yn fanteisiol:

- Cymhwyster ôl-radd mewn Rheoli Treftadaeth neu bwnc cysylltiedig
- Profiad ymarferol o ddarparu cyngor archaeolegol curadurol
- Gwybodaeth am Gymru ac archaeoleg Cymru
- Gwybodaeth am fframwaith cynllunio a deddfwriaethol archaeoleg yng Nghymru
- Y gallu i gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg
- Aelodaeth (ar lefel ACIfA neu uwch) o Sefydliad Siartredig yr Archaeolegwyr a/neu gyrrff proffesiynol eraill.

Cymwyseddau craidd sy'n ofynnol ar gyfer y swydd hon:

- **Cyfathrebu**
Mae'n rhaid i ddeiliaid y swydd allu darparu cyngor ysgrifenedig a llafar clir a phendant, gan ddelio'n hyderus a chwrtais â phobl ar bob lefel.
- **Datrys Problemau**
Mae'n rhaid i ddeiliaid y swydd allu ystyried gwybodaeth yn gyflym, i adnabod materion allweddol a gwneud penderfyniadau yn seiliedig ar dystiolaeth. Mae'n rhaid i ddeiliaid y swydd allu cynnig strategaethau priodol a bod yn agored i syniadau a thechnegau newydd.



Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd
Gwynedd Archaeological Trust

- **Gwaith tîm a phartneriaethau**

Dylai deiliaid y swydd fod yn ymwybodol o lwyth gwaith eraill a bod yn barod i roi help llaw pan fo angen; adeiladau cysylltiadau a rhwydweithiau'r tu allan i'r Ymddiriedolaeth; bod yn ymwybodol o'ch effaith ar eraill; a bod yn barod i gael eich herio gan ddadl resymol.

- **Cymhwyso arbenigedd**

Dylai deiliaid y swydd gymhwyso ystod o sgiliau, gwybodaeth ac arbenigedd; cymryd camau i ddiweddar, datblygu ac ehangu gwybodaeth a sgiliau; gwneud dyfarniadau proffesiynol synhwyrol; a gwybod pryd i gael cyngor ac arbenigedd arbenigol.

- **Darparu**

Dylai deiliaid y swydd ganolbwyntio ar ddarparu gwasanaeth cyson ac o safon a sicrhau canlyniadau gorau posibl; cynllunio a rheoli eu hamser eu hunain i fodloni terfynau amser; helpu i gynllunio ymlaen llaw a diffinio blaenoriaethau; adnabod problemau; a monitro ac adolygu eu perfformiad eu hunain.

- **Gwella'n barhaus**

Dylai deiliaid y swydd ymateb yn gadarnhaol a hyblyg i newid, gwneud argymhellion i wella arferion gweithio, dysgu o gamgymeriadau, rhannu arfer da, ac ystyried potensial technoleg i wella gwaith.

- **Sgiliau personol**

Dylai deiliaid y swydd fod yn hyderus, wedi eu cymell a dibynadwy.